**Datganiad prosesu teg/preifatrwydd**

Beth sy'n digwydd i wybodaeth a gedwir amdanoch chi? Eich hawliau a'n rhwymedigaethau ni i chi.

**Sut Rydym yn Defnyddio Data Personol**

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae Gwasanaeth Budd-daliadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) yn cael, yn dal, yn defnyddio ac yn datgelu gwybodaeth am bobl (eu data personol), a'r camau a gymerwn i sicrhau bod yr wybodaeth honno'n cael ei diogelu. Mae hefyd yn disgrifio'r hawliau sydd gan unigolion o ran y data personol amdanynt y mae CBSP yn eu trafod.

Mae Deddfwriaeth Diogelu Data yn rheoli prosesau defnyddio a datgelu data personol. Felly mae'n rhaid i CBSP sicrhau ei fod yn trin pob data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Mae CBSP yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i'r cyfrifoldeb hwnnw, ac yn ofalus iawn i sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn briodol er mwyn sicrhau a chadw ymddiriedaeth a hyder unigolion yn y Cyngor.

Yn ôl y ddeddfwriaeth mae'n ofynnol i CBSP gael sail gyfreithlon i brosesu data, yn dibynnu ar y gwasanaeth a ddarperir.

**1. Pam ydym ni'n trin data personol?**

Bydd Gwasanaeth Budd-daliadau CBSP yn casglu, prosesu a storio gwybodaeth amdanoch chi ac aelodau eraill eich aelwyd er mwyn prosesu eich cais am Fudd-dal Tai, Lwfans Tai Lleol, Gostyngiad y Dreth Gyngor, prydau ysgol am ddim, Grant Hanfodion Ysgol, lwfans Gwarcheidiaeth Arbennig, lwfans mabwysiadu, Grant Cyfleusterau i'r Anabl (fel bo'n berthnasol i chi), taliadau cymorth hunanynysu, cynlluniau cymorth tanwydd y gaeaf a thaliadau cymorth i ofalwyr di-dâl. Pan fyddwch chi'n darparu gwybodaeth am aelodau'r aelwyd, rydym yn cymryd yn ganiataol eu bod yn llwyr ymwybodol ac yn cydsynio'n llawn i hynny.

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth i:

- gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Deddf Addysg 1996
- gweinyddu'r asesiad o fudd-daliadau a grantiau
- gwirio'r wybodaeth a ddarparwyd i gadarnhau cymhwystra i dderbyn cymorth
- rhannu gwybodaeth gyda'ch landlord lle ceir cydsyniad i wneud hynny (ceir tynnu'r cydsyniad yn ôl ar unrhyw bryd)
- cadw ein cyfrifon a'n cofnodion ein hunain
- cynnal dadansoddiad ac ymchwil a allai gynorthwyo Llywodraeth Cymru i benderfynu ar gymorth ychwanegol sydd i'w ddarparu ac anghenion cyllido yn y dyfodol, yn ogystal â sut orau i gefnogi awdurdodau lleol a'u trigolion.
- cynnal ymgyrchoedd i'ch annog i fanteisio ar y ddarpariaeth sydd ar gael, a'ch cynghori ynghylch eich hawl bosibl i dderbyn cymorth ariannol ychwanegol ac/neu eich cyfeirio i wasanaethau cymorth eraill y gallech fod â hawl i'w dderbyn.
- cynnal arolygon, er enghraifft, arolygon boddhad cwsmeriaid
- cynorthwyo i atal troseddu ac erlyn troseddwyr
- rhoi cefnogaeth ariannol fewnol a chyflawni swyddogaethau corfforaethol

- gwneud gwaith paru data ac ymarferion eraill o dan fentrau twyll lleol a chenedlaethol
- datblygu, profi, a dilysu systemau refeniw a budd-daliadau i sicrhau bod y feddalwedd yn gweithredu fel y bwriadwyd. I wneud hyn, rydym yn defnyddio copi o ddata o'r amgylchedd byw yn ddiogel mewn system brawf.

## 2. Pa fath/ddosbarthiadau o ddata personol ydym ni'n eu trin?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall CBSP gael, defnyddio a datgelu data personol gan gynnwys y canlynol:

- Manylion personol – enw, cyfeiriad, dyddiad geni ac oedran, rhyw, rhif Yswiriant Gwladol, prawf adnabod, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost
- Manylion yr aelwyd – gan gynnwys data personol a strwythur teuluol yr unigolion sy'n byw yn yr aelwyd sy'n ffurfio'r cais am gymorth
- Statws mewnfudo
- Ffordd o fyw ac amgylchiadau cymdeithasol
- Manylion ariannol
- Gwybodaeth am denantiaeth ac eiddo
- Manylion y landlord
- Unrhyw ddyled sy'n gysylltiedig â thenantiaeth a dyled arall
- Hanes cyfeiriadau blaenorol
- Manylion cyflogaeth ac addysg
- Cofnodion myfyrwyr a disgyblion
- Gwybodaeth am ffeil achos
- Manylion iechyd corfforol neu feddyliol
- Gwybodaeth am anabledd
- Manylion meddygol/diagnosis
- Tarddiad hiliol neu ethnig
- Dewis iaith
- Manylion cerbyd
- Delweddau gweledol, ymddangosiad personol, ac ymddygiad
- Troseddau (gan gynnwys troseddau honedig)
- Achosion troseddol, canlyniadau a dedfrydau.

Dim ond data personol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni diben neu ddibenion penodol y bydd CBSP yn eu defnyddio. Gallai data personol fod yn wybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur, ar gofnod papur h.y. ffeil, fel delweddau, ond gall hefyd gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gedwir yn electronig e.e. Delweddau teledu cylch cyfyng.

Weithiau mae angen gwybodaeth ar y Gwasanaeth Budd-daliadau am bobl heblaw'r sawl sydd wedi gwneud cais am fudd-dal neu wasanaeth, er mwyn cyfrifo beth y mae gan y person hwnnw hawl i'w dderbyn. Er enghraifft, os bydd rhywun yn gwneud cais am Fudd-dal Tai neu Ostyngiad y Dreth Gyngor, bydd angen gwybodaeth arnom am bobl eraill sy'n byw ar yr un aelwyd er mwyn cyfrifo faint y bydd y person yn cael ei dalu.

## 3. Am bwy y mae gwybodaeth yn cael ei phrosesu

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall CBSP gael, defnyddio a datgelu data personol am y canlynol:

- Cwsmeriaid
- Aelodau o aelwyd y cwsmer

- Staff, personau sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaeth
- Hawlwyr
- Aelodau o aelwyd y sawl sy'n gwneud cais
- Cwynwyr, ymholwyr, neu eu cynrychiolwyr
- Cynghorwyr ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Myfyrwyr a disgyblion
- Gofalwyr neu gynrychiolwyr
- Landlordiaid
- Derbynwyr budd-daliadau
- Tystion
- Troseddwyr a rhai sydd dan amheuaeth o droseddu
- Deiliaid trwyddedau a chaniatadau
- Cynrychiolwyr o sefydliadau eraill

Dim ond data personol priodol sy'n angenrheidiol i gyflawni diben neu ddibenion penodol y bydd CBSP yn eu prosesu

- Budd-dal Tai
- Lwfans Tai Lleol
- Gostyngiad y Dreth Gyngor
- Taliad Tai Dewisol
- Prydau Ysgol Am Ddim
- Grant Hanfodion Ysgol
- Lwfans Gwarcheidiaeth Arbennig
- Lwfans mabwysiadu
- Grant Cyfleusterau i'r Anabl
- Taliadau cymorth hunanynysu
- Cynlluniau cymorth tanwydd gaeaf
- Taliad Cymorth i Ofalwyr Di-dâl

Gallai data personol fod yn wybodaeth sy'n cael ei chadw ar gyfrifiadur, ar gofnod papur h.y., ffeil, fel delweddau, ond gall hefyd gynnwys mathau eraill o wybodaeth a gedwir yn electronig e.e. Delweddau teledu cylch cyfyng.

## 4. O ble'r ydym ni'n cael data personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1 uchod, gall CBSP gael data personol o amrywiaeth eang o ffynonellau, gan gynnwys y canlynol:

- Yn uniongyrchol gan y sawl sy'n gwneud cais am gymorth
- Landlordiaid presennol, blaenorol, a darpar landlordiaid
- Unigolion eu hunain
- Perthnasau, gwarcheidwaid, neu bobl eraill sy'n gysylltiedig â'r unigolyn
- Asiantaethau gorfodi'r gyfraith
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Cyllid a Thollau EF
- Awdurdodau trwyddedu
- Cynrychiolwyr cyfreithiol
- Awdurdodau erlyn
- Cyfreithwyr amddiffyn
- Llysoedd
- Carchardai
- Tystion

- Sefydliadau'r sector gwirfoddol
- Sefydliadau a phobl gymeradwy sy'n gweithio gyda'r Cyngor
- Archwilwyr
- Llywodraeth ganolog, asiantaethau ac adrannau llywodraethol
- Gwasanaethau brys
- Cyflogwyr presennol, blaenorol, neu ddarpar gyflogwyr yr unigolyn
- Cynghorwyr neu ymarferwyr gofal iechyd, cymdeithasol a llesiant
- Sefydliadau addysg a hyfforddiant
- Cysylltiadau busnes a chynghorwyr proffesiynol eraill
- Gweithwyr ac asiantau CBSP
- Cyflenwyr, darparwyr nwyddau neu wasanaethau
- Unigolion sy'n gwneud ymholiad neu gŵyn
- Sefydliadau a chynghorwyr ariannol
- Ymgynghorwyr meddygol a meddygon teulu
- Llywodraeth leol
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusennol
- Ombwdsmon ac awdurdodau rheoleiddio
- Y cyfryngau
- Proseswyr Data sy'n gweithio ar ran CBSP
- Gwasanaeth Prawf
- Canolfannau Rhannu Amlasiantaeth Diogelu'r Cyhoedd
- Gwybodaeth sydd ar gael yn agored ar y rhyngrwyd
- Camerâu Corff a Wisgir gan Swyddogion
- Adrannau eraill o fewn y Cyngor
- Sefydliadau dadansoddol, arolygu ac ymchwil
- Asiantaethau cyfeirio credyd

Gall CBSP hefyd gael data personol o ffynonellau eraill fel ei systemau teledu cylch cyfyng ei hun, neu o ohebiaeth.

## 5. Sut ydym ni'n trin data personol?

Er mwyn cyflawni'r dibenion a ddisgrifir o dan adran 1, bydd CBSP yn trin data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Yn benodol, byddwn yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn deg ac yn gyfreithlon gyda chyfiawnhad priodol. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw ddata personol a ddefnyddir gennym ni neu ar ein rhan o'r ansawdd uchaf o ran cywirdeb, perthnasedd a digonolrwydd, ac o ran sicrhau nad ydynt yn ormodol, y cânt eu cadw'n gyfredol fel bo'r angen, eu diogelu'n briodol, a'u hadolygu, eu cadw a'u dinistrio'n ddiogel pan na fydd eu hangen mwyach.

## 6. Sut mae sicrhau diogelwch data personol?

Mae CBSP yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i ddiogelwch yr holl ddata personol a gedwir o dan ein rheolaeth. Byddwn yn sicrhau bod mesurau polisi, hyfforddiant, technegol a gweithdrefnol priodol ar waith, gan gynnwys archwilio a monitro hygrededd, i ddiogelu ein systemau gwybodaeth llaw ac electronig rhag camddefnydd a cholledion data, ac ni fyddwn ond yn caniatáu mynediad iddynt pan geir rheswm dilys dros wneud hynny, a phryd hynny o dan ganllawiau llym ynghylch y defnydd a ganiateir o unrhyw ddata personol ynddynt. Caiff y gweithdrefnau hyn eu rheoli a'u gwella'n barhaus i sicrhau mesurau diogelwch cyfredol.

## 7. I bwy ydym ni'n datgelu data personol?

Weithiau bydd angen inni rannu gwybodaeth â'r unigolion rydym yn prosesu gwybodaeth amdanynt ac â sefydliadau eraill. Lle bo angen gwneud hyn, mae'n ofynnol inni gydymffurfio â phob agwedd ar y ddeddfwriaeth. Dyma ddisgrifiad o'r mathau o sefydliadau y gallai fod angen i ni rannu rhywfaint o'r wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei phrosesu â nhw am un neu fwy o resymau:

- Cwsmeriaid
- Teulu, cysylltiadau, neu gynrychiolwyr y sawl yr ydym yn prosesu data personol amdano/amdani/amdanynt
- Cyflogwyr presennol, blaenorol a darpar gyflogwyr
- Landlordiaid presennol, blaenorol, a darpar landlordiaid
- Sefydliadau gofal iechyd, cymdeithasol a llesiant
- Addysgwyr
- Darparwyr nwyddau a gwasanaethau
- Sefydliadau ariannol
- Llywodraeth Cymru a'r llywodraeth ganolog
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Cyllid a Thollau EF
- Gwasanaethau Ombwdsmon a Rheoleiddio
- Cynghorwyr a ac ymgynghorwyr proffesiynol
- Llysoedd a thribiwnlysoedd
- Cyrff proffesiynol
- Sefydliadau dadansoddi, arolygu ac ymchwil gan gynnwys Policy in Practice, cwmni dadansoddi data sy'n cynorthwyo'r Cyngor i gynnal gweithgareddau cefnogi a gweithgareddau i annog pobl i fanteisio ar gymorth sydd ar gael, ac unrhyw sefydliad a gomisiynir gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ymchwil ar ei rhan.
- Asiantaethau cyfeirio credyd
- Heddluoedd
- Cymdeithasau tai a landlordiaid
- Sefydliadau gwirfoddol ac elusennol
- Darparwyr cymorth
- Myfyrwyr a disgyblion gan gynnwys eu perthnasau, gwarcheidwaid, gofalwyr, neu gynrychiolwyr
- Proseswyr data
- Cyrff rheoleiddio
- Llysoedd, carchardai
- Tollau tramor a chartref
- Llywodraeth leol a chanolog
- Asiantaethau a chyrff gorfodi cyfraith ryngwladol
- Asiantaethau partner, sefydliadau cymeradwy ac unigolion sy'n gweithio gyda'r heddlu
- Awdurdodau trwyddedu
- Darparwyr gwasanaeth
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- Cyflogwyr presennol, blaenorol a darpar gyflogwyr
- Awdurdodau gorfodi'r gyfraith ac erlyn
- Gwasanaethau menter twyll lleol a chenedlaethol
- Cynrychiolwyr cyfreithiol, cyfreithwyr amddiffyn
- Y gwasanaeth datgelu a gwahardd
- Bargyfreithwyr
- Darparwyr Hyfforddiant
- Archwilwyr

- Gwasanaethau Eraill y Cyngor

**8. Beth yw eich hawliau mewn perthynas â'r data personol amdanoch sy'n cael eu trin gan CBSP?**

Mae gan unigolion amryw o hawliau:

1. Hawl i gael gwybod
2. Hawl i fynediad
3. Hawl i gywiro
4. Hawl i ddileu
5. Hawl i gyfyngu ar brosesu
6. Hawl i gludo data
7. Hawl i wrthwynebu
8. Hawliau'n gysylltiedig â phenderfyniadau a phroffilio awtomataidd

<u>Hawl i gael gwybod</u>

Mae gennych yr hawl i gael gwybod bod eich data personol yn cael eu casglu a'u defnyddio. Rhaid i'r Cyngor roi gwybodaeth ichi, gan gynnwys: dibenion prosesu eich data personol, cyfnodau cadw'r data hynny, a phwy y rhennir y data â nhw. Gelwir hyn yn 'wybodaeth preifatrwydd'.

<u>Hawl mynediad</u>

Gallwch gael copi, yn amodol ar eithriadau, o'r data personol a ddelir amdanoch gan y Cyngor. Mae copi o'r ffurflen gais ar gael o: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/rhyddid-gwybodaeth/diogelu-data/.

Mae gennych hefyd hawl i gael cadarnhad ynghylch a yw data sy'n ymwneud â chi yn cael eu prosesu gan y Cyngor ai peidio. Lle bo hynny'n wir, mae gennych hawl i'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar eithriadau:

- Dibenion a sail gyfreithiol y prosesu
- Y categorïau o ddata personol dan sylw
- Y derbynwyr y datgelwyd y data personol iddynt
- Y cyfnod y rhagwelir y bydd y data personol yn cael ei storio
- Cyfleu'r data personol sy'n cael eu prosesu ac unrhyw wybodaeth sydd ar gael ynghylch tarddiad y data hynny.

  *Sylwch fod 'prosesu' yn golygu gweithrediad neu gyfres o weithrediadau a gyflawnir ar ddata personol fel casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu, newid, dileu, cyfyngu, adalw.

Efallai y bydd angen prawf adnabod ac unrhyw wybodaeth bellach i ganfod yr wybodaeth a allai fod yn ofynnol cyn y gall y Cyngor gydymffurfio â'ch cais.

Dylid anfon unrhyw gais am yr wybodaeth uchod mewn ysgrifen at y Swyddog Diogelu Data, a bydd y Cyngor yn ymateb o fewn mis.

Cywiro data

Gallwch ofyn i'r Cyngor gywiro data personol anghywir sy'n ymwneud â chi. Os yw'r data'n anghywir oherwydd eu bod yn anghyflawn, rhaid i'r Cyngor eu cwblhau os gofynnwch chi iddo wneud hynny.

Dylid anfon cais mewn ysgrifen at y Swyddog Diogelu Data, a bydd ymateb yn cael ei anfon o fewn mis.

Dileu neu gyfyngu ar ddata personol

Gallwch ofyn i'r Cyngor ddileu eich data neu gyfyngu ar unrhyw waith prosesu ar eich data, yn amodol ar eithriadau.

Dylid anfon pob cais at y Swyddog Diogelu Data. Bydd y Cyngor wedyn yn rhoi gwybod ichi a ganiatawyd y cais, ac os cafodd ei wrthod, y rhesymau dros ei wrthod.

Hawl i beidio bod yn destun penderfyniadau awtomataidd

Mae gennych hawl, yn amodol ar eithriadau, i beidio bod yn destun penderfyniad os yw'n seiliedig ar brosesu awtomataidd ac yn creu effaith gyfreithiol neu effaith debyg o bwys arnoch. Mae gennych hawl i fynegi eich safbwynt a chael esboniad gan y Cyngor ynghylch ei benderfyniad a herio'r penderfyniad hwnnw.

Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r hawl hon yn berthnasol i bob penderfyniad, gan fod eithriadau i'w cael, er enghraifft awdurdodi gan y gyfraith, cyflawni contract yr ydych yn â rhan ynddo.

Mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau yn awtomeiddio newidiadau rhent V2C a, lle bo modd, gwybodaeth a dderbynnir yn electronig oddi wrth neu drwy'r Adran Gwaith a Phensiynau, fel dyfarniadau Credyd Cynhwysol, symiau pensiwn ymddeol y wladwriaeth a manylion cyswllt.

Hawl i gludo data

Mae'r hawl i gludo data yn rhoi caniatâd ichi gael ac ailddefnyddio eich data personol i'ch dibenion eich hun ar draws gwahanol wasanaethau.

Nid yw'r hawl hon ond yn berthnasol i wybodaeth rydych chi wedi'i darparu i'r Cyngor.

Hawl i wrthwynebu

Mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau.

Mae gan y Cyngor un mis calendr i ymateb i wrthwynebiad.

## 9. Am ba hyd y bydd CBSP yn cadw data personol?

Bydd CBSP yn cadw data personol gyhyd ag y bo angen ar gyfer diben neu ddibenion neilltuol dal y data hynny, yn unol â Pholisi Cadw Data'r Cyngor.

## 10. Y sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'r wybodaeth hon

Rhaid i'r Cyngor gael sail gyfreithiol ddilys er mwyn prosesu data personol. Bydd y sail fwyaf priodol i'w defnyddio yn ddibynnol ar y diben a'r berthynas â'r unigolyn.

Y sail gyfreithiol inni ddefnyddio eich gwybodaeth yw er mwyn bodloni ein rhwymedigaeth gyfreithiol o dan ddeddfwriaeth Budd-dal Tai, Gostyngiad y Dreth Gyngor, Prydau Ysgol Am Ddim, Grant Hanfodion Ysgol, lwfans Gwarcheidiaeth Arbennig, lwfans mabwysiadu, a Grant Cyfleusterau i'r Anabl, ac i gyflawni ein dyletswyddau fel Cyngor.

O dan y Ddeddf, y seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu yw:

(a) **Caniatâd**: mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd clir ichi brosesu eu data personol i ddiben penodol.

(b) **Contract**: mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer contract sydd gennych gyda'r unigolyn, neu am ei fod wedi gofyn ichi gymryd camau penodol cyn ymrwymo i gontract.

(c) **Rhwymedigaeth gyfreithiol**: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn ichi gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau cytundebol).

(ch) **Buddiannau hanfodol**: mae'r prosesu yn angenrheidiol i ddiogelu bywyd rhywun.

(d) **Tasg gyhoeddus**: mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn ichi gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail glir yn y gyfraith.

(dd) **Buddiannau dilys:** mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer eich buddiannau dilys, neu er buddiannau dilys trydydd parti, onid oes rheswm da i ddiogelu data personol yr unigolyn sy'n drech na'r buddiannau dilys hynny. (Ni all hyn fod yn berthnasol os ydych chi'n awdurdod cyhoeddus sy'n prosesu data i gyflawni eich tasgau swyddogol.)

## 11. Cysylltu â ni

Gall unrhyw unigolyn sydd â phryderon ynghylch y ffordd y mae CBSP yn trin eu data personol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data o fewn y Cyngor fel a ganlyn:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfa Wybodaeth, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

E-bost foi@bridgend.gov.uk

Ffôn 01656 643565

Gallwch hefyd godi pryderon gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru
Yr 2il Lawr
Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd

CF10 2HH

Ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399
e-bost: wales@ico.org.uk
Gwefan: https://ico.org.uk/